OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1011

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 4

## Gorfodi

**Swyddogion gorfodaeth**

**15.**—(1) At ddibenion rheoliadau 16, 17 a 19, ystyr "swyddog gorfodaeth" yw—

(a) cwnstabl,

(b) swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, neu

(c) person sydd wedi ei ddynodi gan—

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) awdurdod lleol,

(iii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu

(iv) Cyfoeth Naturiol Cymru,

at ddibenion rheoliadau 16 i 19 (ond gweler paragraff (2)).

(2) Ni chaiff person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod Parc Cenedlaethol neu Gyfoeth Naturiol Cymru arfer swyddogaethau swyddog gorfodaeth ond mewn perthynas â thorri'r gofyniad yn rheoliad 14(4) (neu achos honedig o'i dorri).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 15 mewn grym ar 18.9.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/12/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, Adran 15.